Diogelwch rhwydweithiau T828

Patrwm cyflwyno O fis Tachwedd i fis Ebrill

Disgrifiad o'r modiwl

Gyda sefydliadau'n gynyddol ddibynnol ar eu systemau gwybodaeth, mae mwy o angen i sicrhau bod y seilwaith rhwydweithio sylfaenol a ddefnyddir gan y systemau hyn yn ddiogel. Fel Academi Cisco flaenllaw, mae'r modiwl hwn yn cynnwys modiwl Diogelwch Swyddog Cyswllt Rhwydweithio Ardystiedig Cisco (CCNA) ac mae'n darparu sylfaen i baratoi ar gyfer cymhwyster Proffesiynol Diogelwch Systemau Gwybodaeth Ardystiedig (CISSP). Bydd yn rhoi gwybodaeth, dealltwriaeth a phrofiad ymarferol i fyfyrwyr o reoli cyfathrebu diogel ar draws rhyng-rwydwaith mawr gan ddefnyddio cyfarpar Cisco. Hefyd, bydd disgwyl iddynt wneud ymchwil unigol i roi eu hastudiaeth Cisco yng nghyd-destun yr amgylchedd rheoli diogelwch ehangach.

Manyleb y person

Dylid darllen y fanyleb person ar gyfer y modiwl hwn ynghyd â manyleb gyffredinol y person ar gyfer darlithydd cyswllt yn Y Brifysgol Agored.

Yn ogystal â bodloni'r holl ofynion a gaiff eu nodi ym manyleb gyffredinol y person, dylech:

- fod yn gymwys fel hyfforddwr i addysgu fersiwn ddiweddaraf cwricwlwm Diogelwch-CCNA (CCNA-D).

Byddai'n fanteisiol meddu ar y canlynol:

- profiad masnachol sylweddol o weithio ar lefel CCNP
- profiad o addysgu ar lefel CCNP
- profiad o addysgu mewn addysg uwch
- bod yn gymwys fel hyfforddwr i addysgu CCNP SWITCH, ROUTE a TSHOOT
- bod yn Weithiwr Proffesiynol Diogelwch Systemau Gwybodaeth Ardystiedig (CISSP).

Manylion sy'n gysylltiedig â'r modiwl – gellir dod o hyd i eglurhad llawn ar y wefan

Credydau a ddyfernir i'r myfyriwr am gwblhau modiwl yn llwyddiannus:	30
Nifer yr aseiniadau a gyflwynir gan y myfyriwr:	3
Dull cyflwyno ar gyfer aseiniadau:	2
Lefel y gofynion TGCh:	2
Nifer y myfyrwyr sy'n debygol o fod mewn grŵp safonol:	20
Band cyflog:	3
Nifer amcangyfrifiedig yr oriau fesul wythnos addysgu:	5